Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Partneriaethau**
Dyddiad y cyfarfod	**7fed Gorffennaf 2022**
Aelod Arweiniol / Swyddog	**Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Alaw Pierce,Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Arbenigol**
Awdur yr adroddiad	**Nerys Tompsett, Rheolwr Tîm Gwasanaethau Diogelu Oedolion**
Teitl	**Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022.**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adroddiad perfformiad blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn unol â chanllawiau statudol ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Cyfeirio at ddata sy'n adlewyrchu ffigurau a gyflwynir gan yr Awdurdod Lleol yn flynyddol i Uned Ddata Llywodraeth Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad ac yn cydnabod pwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl, a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Y gweithgarwch o ran amddiffyn oedolion dros y 12 mis diwethaf, gan barhau i ganolbwyntio ar gynnal gwelliant yng nghysondeb ac ansawdd gwaith diogelu, gan gynnwys perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru o ymholiadau'n cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith.

4.2 Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru'n llawn gan gynnwys yr adroddiadau'n ymwneud ag Unigolyn mewn Swydd gydag Ymddiriedaeth (atgyfeiriadau Adran 5).

4.3 Y newidiadau parhaus mewn arfer ers Covid-19 i sicrhau fod dinasyddion Sir Ddinbych yn cael eu diogelu a chymharu'r data o gyfnod tebyg.

Gweithgarwch Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 2019 - 2022

Blwyddyn	Adroddiadau (atgyfeiriadau) a dderbyniwyd
2019 - 2020	597
2020 - 2021	354
2021 - 2022	324

4.4 Y Penawdau o Ystadegau 2021 - 22

- Ar y cyfan mae yna ychydig o ostyngiad (8%) wedi bod yn nifer yr adroddiadau Oedolion mewn Perygl a dderbyniwyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Rydym yn parhau i dderbyn nifer uchel o alwadau ffôn i'r tîm Diogelu gan wasanaethau sy'n darparu a gweithwyr proffesiynol sy'n ceisio cyngor neu arweiniad yn ymwneud â materion diogelu. Caiff y galwadau hyn eu monitro i gefnogi dadansoddiad pellach o unrhyw themâu posibl neu dueddiadau a allai fod yn codi, a allai ofyn am ymagwedd ychwanegol i gefnogi unrhyw gamau gweithredu ehangach yn ymwneud â diogelu.

- Fe welsom gynnydd sylweddol mewn adroddiadau Oedolion mewn Perygl pan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i rym yn Ebrill 2016. Fe barhaodd y cynnydd cynyddrannol, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2018 ac yna dechreuodd ddangos arwyddion o ostyngiad wrth i'r 'ddyletswydd i roi gwybod' ddod yn fwy eglur i weithwyr proffesiynol. Yn ystod y cyfnod hwn o niferoedd cynyddol o adroddiadau Oedolion mewn Perygl, mae'n bwysig nodi na arweiniodd hyn at gynnydd yn y nifer o achosion a aeth ymlaen i gyfarfod strategol. Fodd bynnag, yn ystod Covid mae newidiadau pellach wedi bod mewn perthynas â'r nifer o adroddiadau Oedolion mewn Perygl sydd wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol, newid a brofwyd ar draws Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru. Gyda'r cyfyngiadau amlwg fel y cyfnodau clo, llai o gyswllt gyda gwasanaethau allanol a/neu deuluoedd, fe allai hyn fod wedi cyfrannu at y newid hwn, ond rydym yn parhau i fonitro a gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau fod diogelu yn uchel ar yr agenda.

- Yn niwedd 2020 fe welsom weithredu proses Adran 5 h.y. *Honiadau / Pryderon ynglŷn ag Ymarferwyr a'r Rhai Hynny sydd mewn Swydd gydag Ymddiriedaeth*. O 2021 i 2022 rydym nawr yn gallu dal blwyddyn lawn o ddata i gefnogi cymariaethau pellach ar gyfer y dyfodol. Fe aed â'r holl atgyfeiriadau Adran 5 (25) i gyfarfod trafodaethau strategol, gyda chynrychiolaeth o aml-asiantaethau i bennu a fodlonwyd y trothwy ac aed â'r rhai hynny a oedd yn briodol i gyfarfod strategaeth ffurfiol o dan broses Adran 5. O ran y canlyniad ar gyfer yr achosion hynny a aeth ymlaen i gyfarfod strategaeth ffurfiol, fe wnaed penderfyniad yn ôl pwysau tebygolrwydd a

gadarnhawyd y pryderon ai peidio h.y. a oeddent yn bryderon a gadarnhawyd, na chawsant eu cadarnhau, a oeddent yn ddi-sail, wedi eu dyfeisio'n fwriadol neu'n faleisus. O'r 28% (7) o atgyfeiriadau a aeth ymlaen, y canlyniad mewn 12% (3) o'r achosion hyn oedd fod y pryderon wedi'u cadarnhau, gyda'r 16% a oedd yn weddill (4) o achosion yn parhau h.y. yn aros am ganlyniadau ffurfiol. O fewn y 28% (7) o achosion hyn mae yna 16% (4) o achosion wedi bod lle mae ymchwiliad troseddol wedi bod neu mae'n parhau. Mae yna 1 achos sydd wedi mynd yn ei flaen i fod yn erlyniad llwyddiannus a dedfryd o garchar am 10 mis.

- Camdriniaeth gorfforol 33%(137) ac esgeulustod 32% (133) oedd y mathau mwyaf cyffredin o gam-driniaeth a adroddwyd, eto yn debyg i flynyddoedd blaenorol a gan ddilyn tueddiadau cenedlaethol.

  DS: Gellir adrodd mwy nag un categori o gamdriniaeth o fewn adroddiad diogelu.

  (Gweler Atodiad 1 am ddata diogelu 2021 – 22)

- Fel yr adroddwyd y llynedd, ym Medi 2020 fe welsom weithredu Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru: *Honiadau / Pryderon Diogelu yn Ymwneud ag Ymarferwyr a'r Rhai Hynny sydd mewn Swydd gydag Ymddiriedaeth.* Ac mae cynnydd cyson yn parhau o ran adroddiadau a gaiff eu hystyried o dan yr adran hon. Mae Grŵp Tasg a Gorffen Cenedlaethol ar hyn o bryd yn ystyried Adran 5 gan ganolbwyntio ar roi eglurder yn ymwneud â rhai o'r egwyddorion. Fe fydd canlyniad gwaith y grŵp hwn yn hysbysu unrhyw ddatblygiad pellach y gallai fod angen i ni ei ystyried yn nhermau gwaith Adran 5.

4.5 Dangosyddion Perfformiad

Dim ond un dangosydd perfformiad cenedlaethol sydd yn ymwneud â Diogelu Oedolion ar hyn o bryd: nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith.

Rydym wedi parhau i gynnal ein perfformiad mewn perthynas â'r dangosydd perfformiad, gyda 99.7% o ymholiadau wedi eu cwblhau o fewn y terfyn amser 7 diwrnod gwaith ar gyfer 2021/22. Tra bod gostyngiad bach wedi bod yng nghyfanswm nifer yr adroddiadau yn y cyfnod hwn, mae cynnal a gwella ar y dangosydd perfformiad blaenorol yn ystod y flwyddyn heriol hon, yn parhau i ddangos ymroddiad ac ymrwymiad y tîm tuag at ddiogelu'r dinasyddion hynny yn Sir Ddinbych y tybir eu bod yn Oedolion mewn Perygl.

4.6 Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) – gweithgarwch 2021 - 22

- Mae yna gynnydd wedi bod yn y nifer o geisiadau a dderbyniwyd: 423 (+26%) o'i gymharu â 336 y llynedd.

- Mae 236 o awdurdodiadau wedi eu rhoi, cynnydd o 169 (+40%) y llynedd. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i raddau helaeth i'r ffordd newydd o weithio a ddaeth yn sgil Covid 19 a'r angen i amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl h.y. platfformau digidol ar gyfer cwblhau asesiadau. Hefyd mae yna gynnydd wedi bod yng nghapasiti'r

Asesydd Budd Pennaf o ganlyniad i recriwtio 2 Asesydd Budd Pennaf llawn amser dros dro mewn ymgais i leihau ein rhestr aros wrth i ni baratoi ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn 2023.

- Mae 13 o geisiadau eraill wedi eu cyflwyno i'r Llys mewn perthynas ag Amddifadedd mewn Lleoliadau Cartref. Mae hwn yn waith parhaus sydd wedi ei ymgorffori o fewn gwaith achos arferol yn y tîm Anabledd Cymhleth, a bydd o fudd i'r tîm unwaith y bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid wedi eu gweithredu.

4.7 Y Prif gyflawniadau yn 2021 - 22

- Yn 2021 – 2022 rydym wedi cwblhau 99.7% o ymholiadau adran 126 o fewn 7 diwrnod gwaith, gan ddangos ein bod wedi cynnal data'r llynedd a hyd yn oed eu gwella yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru.

- Cwblhau pob un o'r 4 archwiliad chwarterol drwy nodi sampl o achosion diogelu er mwyn adolygu gwaith diogelu o safbwynt ansawdd a chysondeb, gan ganolbwyntio ar broses adran 126. Mae'r archwiliadau hyn yn rhoi'r cyfle am gyfnodau rheolaidd i wirio ac adolygu nad yw arfer da wedi ei gyfaddawdu gan lwyddiant y dangosydd perfformiad.

- Mae monitro pellach ar gyfer sicrwydd ansawdd wedi ei gwblhau ar broses Adran 5. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ansawdd atgyfeiriadau, ymwneud gweithwyr proffesiynol perthnasol a'r cam gweithredu ar ddiogelu a gaiff ei gymryd mewn perthynas â'r risg a ganfyddir a sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli wrth symud ymlaen. Fe fydd achosion Adran 5 nawr yn ffurfio rhan o'n proses archwilio sicrwydd ansawdd blynyddol yn ystod y 12 mis nesaf. Ein nod fydd nodi meysydd allweddol o arfer da a meysydd lle mae angen gwelliannau pellach.

- Rydym wedi cynnal y ffyrdd newydd o weithio h.y. cynnal cyfarfodydd strategol a chyfarfodydd trafodaeth strategaeth Adran 5 drwy blatfformau rhithiol. Rydym yn parhau â chynrychiolaeth dda yn y cyfarfodydd hyn ac fe fyddwn yn monitro'n fanwl wrth i asiantaethau partner adolygu eu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau fod y broses hon yn parhau yn addas i'r diben wrth i ni symud ymlaen.

- Adolygu a datblygu proses Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn newydd sy'n canolbwyntio ar nifer o Swyddogion Awdurdodedig, proses recriwtio ac anghenion hyfforddi. Datblygu canllaw ymarfer i gefnogi ymarferwyr gyda dewisiadau a phrosesau i'w hystyried pan fo rhesymau i gredu fod unigolyn mewn perygl o niwed.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r trefniadau Diogelu Oedolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaethol o Gymunedau Gwydn: mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a gwytnwch.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Amherthnasol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- Mae dirprwyo ymholiadau adran 126 i asiantaethau eraill i'w weithredu o hyd ar draws Gogledd Cymru. Mae'r peilot a gynllunnir rhwng Prifysgol Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol Ynys Môn a Wrecsam yn parhau ac mae ei ganfyddiadau eto i'w rhannu h.y. beth weithiodd yn dda a beth na weithiodd yn dda. Heb ddeall y canlyniadau'n llawn o'r peilot hwn a'r posibilrwydd y gellid ei gyflwyno ar draws y rhanbarth, mae'r risg yn cynyddu mewn perthynas â'n Dangosydd Perfformiad.

- Mae dyddiad gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid wedi ei ohirio eto i fis Ebrill 2023. Mae yna gyfnod ymgynghori sydd i ddod i ben ym Mehefin 2022 ac fe allai ei ganfyddiadau arwain at oblygiadau uniongyrchol i'r Codau Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Mae cynnwys yr hyfforddiant sydd ei angen i weithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid eto i'w ffurfioli neu ei gytuno. Fe fydd y canfyddiadau hyn wedyn yn sail i ba gamau sydd eu hangen i fodloni ein rhwymedigaethau statudol ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

11. Y Pŵer i wneud y Penderfyniad

Caiff pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Tîm Gwasanaethau Gweithredol Diogelu